

# Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

27.03.17

Coleg Pen-y-Bont

Presennol	Sefydliad
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Darren Mephram	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Katy Chamberlain	Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr
Mark Brace	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Martin Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Martyn Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Richard Hughes	AWEN
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru
<b>Ymddiheuriadau</b>	
Claire Evans	Heddlu De Cymru
Cllr Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Eirian Evans	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Judith Tomlinson	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Stephen Cook	Cymoedd I'r Arfordir
Vaughan Jenkins	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
<b>Hefyd yn bresennol</b>	
Claire Fauvel	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Janine Roderick	Iechyd Cyhoeddus Cymru/ Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Joanne Abbott-Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
John Fabes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Lindsay Harvey	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Nicola Echanis	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Yuan Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Judith Jones	Tîm Cymorth Partneriaeth
Gaynor Griffiths	Tîm Cymorth Partneriaeth

Eitem ar yr Agenda	Sylwadau	Cam Gweith-redu
<b>1</b>	<b>Croeso a Chyflwyniadau</b>	
1.1	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan DM a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain yn gyflym. Darparodd StP y newyddion diweddaraf calonogol ynglŷn â digwyddiadau diweddar yn San Steffan.	
<b>2</b>	<b>Gosod yr Olygfa: Cynigion LIC ar gyfer canolfannau PNP y blynyddoedd cynnar, y 1000 Diwrnod Cyntaf, Parthau Plant</b>	
2.1	Darparodd AF y newyddion diweddaraf ynglŷn â chynigion LIC a oedd yn nodi bod y manifestio Plant a Phobl Ifanc, Symud Cymru Ymlaen, yn awr wedi cael ei gyhoeddi ac roedd yn tynnu sylw at gynnydd gyda PNP, y 1000 Diwrnod Cyntaf a'r Parthau Plant.	

	Gan adeiladu at fomentwm Cymru gyfan, dechreuodd ICC ar waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr y llynedd, gyda'r nod o osgoi/leihau PNPau, cefnogi'r rhai hynny sy'n cael profiad o PNP a chreu ymwybyddiaeth o PNP. Bydd cyflwyniad JR yn dilyn.	
2.2	Cymru Well Wales, canolbwyntir ar waith cydweithredol gyda nifer o wasanaethau sydd ynghlwm â'r 1000 Diwrnod Cyntaf, sy'n sbarduno gwella'r system o'r cychwyn cyntaf. Tynnodd AF sylw at y Digwyddiad Mapio Systemau y 1000 Diwrnod Cyntaf sy'n digwydd ar 25ain Ebrill ym Mhen-y-Bont ar Ogwr.	
2.3	LIC i gyhoeddi'r ardaloedd daearyddol a nodwyd i redeg cynllun peilot ar y Parthau Plant cyn bo hir a fydd yn gweld sefydliadau yn cydweithredu yn rhwydd i wella bywydau plant a phobl ifanc, ynghyd â Dechrau'r Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, a fydd yn eu cefnogi nhw i gael y dechreuad orau posibl mewn bywyd.	
<b>3</b>	<b>Prosiect PNP y Comisiynydd Heddlu a Throsedd/ Iechyd Cyhoeddus Cymru</b>	
3.1	Darparodd JR drosolwg cymhleth ynglŷn â PNP a oedd yn cynnwys yr effaith biolegol a'r effaith ar y plentyn, yr ôl-ffeithiau mewn bywyd oedolyn a'r angen i dorri'r cylch. Gan dynnu sylw at yr hyfforddiant a'r astudiaethau, daeth JR i ben gyda'r gwaith presennol sy'n digwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda'r heddlu, Addysg a Thai.	
3.2	Tynnodd JR sylw at <a href="#">gyhoeddiadau PNP</a> sydd ar gael ar wefan ICC, sef Ymddygiad Niweidiol i Iechyd, Clefydau Cronig ac Iechyd Meddwl. <b>Cam Gweithredu:</b> Y ddolen i'r papur diweddar i'w anfon ymlaen er mwyn ei chylchredeg.	<b>JR/AF</b>
3.3	Cododd AD bryder ynghylch yr astudiaeth a'r hyfforddiant sy'n ymddangos eu bod yn canolbwyntio ar agweddau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac nid ar agweddau llesiant iechyd meddwl a chorfforol, gan ychwanegu nad yw PNPau yn broblem sy'n gyfan gwbl gyfyngedig i ardaloedd difreintiedig.	
3.4	Esboniodd JR o ganlyniad i weithio gyda'r heddlu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, efallai bod y cyflwyniad yn ymddangos yn llawn o YGG a chytunodd fod ymchwil yn dangos yn eglur y gallwch chi gael profiad o PNPau lle bynnag yr ydych chi'n byw. Fodd bynnag, efallai ei bod yn haws cael cefnogaeth mewn ardaloedd mwy cyfoethog.	
3.5	Holodd HJ a oedd yr animeiddiad yn briodol mewn lleoliad addysgol. Nododd JR fod gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn canolbwyntio yn bennaf ar rieni a datlbygu'r gweithlu. Ychwanegodd LH mai o dan adolygiad y cwricwlwm presennol, bydd llesiant yn flaenoriaeth mewn ysgolion.	
3.6	Bu trafodaeth wedyn ynglŷn â hyfforddiant ymwybyddiaeth PNP, y cyflwyno i asiantaethau eraill a chreu cymdeithas sy'n ymwybodol o PNP.	
3.7	Daeth DM i ben drwy ofyn beth yw swyddogaeth y BGC, a yw'n swyddogaeth gydlyn sy'n sicrhau bod pob maes gwaith wedi'i gydgyssylltu. Ychwanegodd JR fod Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth o asedau a all fwydo i'r BGC.	
<b>4</b>	<b>Gweithredu ar Sail y System Gyfan</b>	
4.1	Cyflwynodd NE drosolwg o Wasanaethau Cymorth Cynnar, sy'n amlinellu siwrnai'r plentyn a thynnu sylw at Un Drws Ffrynt, proses sengl o atgyfeirio.	
<b>5</b>	<b>Llwybrau ar Gyfer pobl ifanc – cydraddoldeb rhwng addysg gyffredinol a llwybrau galwedigaethol/prentisiaethau</b>	
5.1	Cyflwynwyd y llwybrau ar gyfer pobl ifanc ar y cyd gan SP a JP. <ul style="list-style-type: none"> <li>Nodwyd bod darpariaeth addysg ôl-16 o dan adolygiad ar hyn o bryd, bu pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn cymryd rhan mewn gweithdai er mwyn cael eu safbwynt nhw ynglŷn â sut y dylai edrych.</li> <li>Daeth i'r casgliad fod angen hyrwyddo neges gadarnhaol a chodi proffil</li> </ul>	

	prentisiaethau, darparu cyngor a chanllawiau i bobl ifanc sydd yn yr ysgol a chynnig dewis amgen i fynd i Brifysgol, gan eu hysbrydoli nhw i gyd i fod yr hyn a allan nhw fod.	
<b>6</b>	<b>Persbectifau gan Bartneriaid</b>	
6.1	Cylchredwyd o'r blaen.	
<b>7</b>	<b>Cyfeiriad, Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu'r BGC – Adolygu a Myfyrio</b>	
7.1	Awgrymodd DM i aelodau ystyried sut y mae'r gwaith a wnaed yn y cyflwyniadau yn cysylltu â syniadau ac argymhellion blaenorol a nodwyd gan y BGC.	
7.2	Wedi cael eu nodi eisoes gan y BGC <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prentisiaethau (y grŵp eisoes yn bodoli, ond byddai yn hoffi iddyn nhw ymdrin yn benodol yn ogystal ag ymwybyddiaeth o amrediad o gyfleoedd prentisiaeth ac ystyried sut i gynyddu ymglymiad cyflogwyr, yn cynnwys sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC)</li> <li>• Gweithgarwch corfforol pobl ifanc (nodwyd yn flaenorol fel maes ar gyfer gweithredu ac mae PABM eisoes yn arwain ar hyn. Chwiliwch am gyfle i nodi cyfleoedd yn benodol ar gyfer pobl ifanc wrth wneud cynnydd gyda llesiant. N.G. nid chwaraeon yn unig yw gweithgaredd corfforol)</li> </ul>	
7.3	Mae'r BGC eisiau gwybod ynglŷn â hyn, ond nid oes angen gweithredu gan y BGC yn ystod y cam hwn. <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu darpariaeth addysg ôl-16 ym Mhen-y-bont ar Ogwr (wedi'i arwain gan CBSPBO)</li> <li>• Ymdrin â pherfformiad cymharol wael yn Sir Pen-y-bont o'r niferoedd o bobl oed gwaith heb unrhyw gymwysterau a'r niferoedd o bobl sy'n gymwys i lefelau gwahanol o FfCC. Cynyddu ymwybyddiaeth yr amrediad llawn o ffyrdd dysgu sydd yn y system addysg. (CBSPBO a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr)</li> <li>• Cynnig i adleoli Coleg Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn gwella cyfleusterau AB/AU a symblu adfywiad (Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a CBSPBO) (yn ychwanegol, mae gan Goleg Pen-y-bont ar Ogwr ddiddordeb mewn cynnal sgysiau penodol gyda phartneriaid lle mae cyfle pellach ar gyfer cydleoeli)</li> <li>• Adolygiad CAMHS/iechyd meddwl (Mae PABM yn arwain hyn)</li> </ul>	
7.4	I'w symud ymlaen <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu Is-grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda'r pwrpas penodol o gydweddu ymyriadau/prosiectau presennol a'r rhai sydd ar ddod â'r nod o wella llesiant Plant a Phobl Ifanc (PPhI), gan osgoi PNP neu arfogi PPhI gyda chadernid er mwyn ymdopi â PNP/adfer ar ôl dioddef PNP.</li> </ul>	
7.5	<b>Cam Gweithredu:</b> Cipio'r syniadau arfaethedig, paratoi nodyn briffio a gofyn am enwebeion ar gyfer y grŵp PPhI gael eu cylchredeg erbyn diwedd y dydd.	<b>DM</b>
<b>8</b>	<b>Gwybodaeth ynglŷn â BGC</b>	
8.1	Oherwydd diffyg amser, gofynnodd DM i aelodau ystyried eitemau a oedd angen cymeradwyaeth yr aelodau.	
8.2	Adolygu trefniadau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol – Cytunodd pawb y dylai PDC fod yn rhan o'r BGC.	
8.3	Rhoddyd cynnig ar y bwrdd i ystyried cais ar y cyd rhwng CNPT ac Abertawe am gyllid sydd ar gael gan LIC er mwyn penodi Cydlynedd Cynllunio neu wasanaeth wedi cael ei gomisiynu yn allanol.	
8.4	Bu trafodaeth wedyn ynglŷn â meini prawf a'r amser cyfyng sydd ar gael ar gyfer paratoi cais ar y cyd. Codwyd pryderon gan AD na fu ymgynghori gyda'r aelodau a holodd JAD a oedd angen gwaith dadansoddol pellach. <b>Cam Gweithredu:</b> DM i gysylltu â Chadeiryddion CNPT ac Abertawe er mwyn gwneud penderfyniad.	<b>DM</b>

Agenda	Cofnod o Gamau Gweithredu	Gan Bwy
3.2	Y ddolen i'r papur diweddar i'w anfon ymlaen er mwyn ei chylchredeg	JR/AF
7.5	Cipio'r syniadau arfaethedig, paratoi nodyn briffio a gofyn i enwebeion y grŵp PPHI gael eu cylchredeg erbyn diwedd y dydd	DM
8.4	Cysylltu â Chadeiryddion BGC CNPT ac Abertawe er mwyn gwneud penderfyniad	DM